Prentisiaethau

# Urdd Gobaith Cymru

# Polisi Apêl

Polisi gwneud apêl yn erbyn penderfyniad asesu.

Fersiwn 4

Cyhoeddwyd: Ebrill 2023

Mae'r polisi yma ar gyfer unrhyw unigolyn neu sefydliad sydd yn mynychu cwrs, yn ymwneud ag hyfforddiant a ddarparwyd gan Urdd Gobaith Cymru neu un o'i is-gontractwyr neu partneriaid darparu. Mae hyn yn cynnwys unigolyn sy'n ymgymryd â phrentisiaeth drwy Urdd Gobaith Cymru.

# Polisi Apêl (Asesu)

Apêl gan ddysgwr yn erbyn penderfyniad asesu.

Mae gan ddysgwyr yr hawl i wneud apêl ynglŷn ag unrhyw benderfyniad asesu a chafwyd eu gwneud gan aelod o staff Urdd Gobaith Cymru neu ymarferwr llawrydd yn gweithio ar ran y sefydliad. Mae rhaid dilyn y weithdrefn sydd yn cael eu hamlinellu yn y polisi yma er mwyn i apêl cael eu hystyried.

Mae'r Rheolwr Prentisiaethau Cenedlaethol yn gyfrifol am sicrhau bod y polisi yma yn cael ei chyhoeddi, ei weithredu a'i fod ar gael i holl staff y mudiad, pob dysgwr ac unrhyw bartïon allanol addas.

Fe ddylai dysgwyr cael eu hysbysebu ynglŷn â'r polisi yn ystod eu hanwythiad i'r cynllun ac fe fydd y polisi ar gael drwy'r system e-portffolio ac ar wefan yr Urdd. Bydd copïau electronig a caled ar gael, ar gais. Bydd y polisi hefyd ar gael ar wefan yr Urdd, o dan y pennawd 'Prentisiaethau'.

Fe ddylai dysgwyr sydd am wneud apêl yn erbyn penderfyniad asesu gwneud o fewn 35 diwrnod i'r penderfyniad gwreiddiol. Rydym yn annog dysgwyr i gadw copïau o unrhyw ddogfennaeth yn ymwneud a'r apêl. Dylai'r weithdrefn ganlynol cael ei ddilyn gan unrhyw ddysgwyr sydd am gyflwyno apêl.

Polisi Apêl – Polisi gwneud apêl yn erbyn penderfyniad asesu

Fersiwn 4

Ebrill 2023

Arwyddwyd

**Sian Lewis**
**Prif Weithredwr**

## Gweithdrefn Cyflwyno Apêl

Dysgwr yn anfodlon gyda phenderfyniad asesu. Dylai'r dysgwr gwneud apêl yn uniongyrchol gyda'r aseswr penodedig yn y man cyntaf. Dylai'r aseswr esbonio'r rhesymeg tu ôl i'r penderfyniad asesu i'r dysgwr.

↓ Dysgwr yn anfodlon gyda rhesymeg yr ameswr

Dysgwr yn cwblhau'r 'Ffurflen apêl yn erbyn penderfyniad asesu' a'i chyflwyno i'r Pennaeth Prentisiaethau Cenedlaethol ynghlwm ac unrhyw dystiolaeth ategol. Dylai'r ffurflen cael eu cyflwyno o fewn 35 diwrnod wedi penderfyniad gwreiddiol.

↓

Mae rhaid i'r Pennaeth Prentisiaethau anfon cadarnhad bod y ffurflen wedi ei dderbyn o fewn 14 diwrnod a delir yr ymateb amlinellu'r camau nesaf.

↓

Bydd y Pennaeth Prentisiaethau a'r Rheolwr Sicrhau Ansawdd yn ymchwilio i'r mater ac yn hysbysebu'r dysgwr o'r penderfyniad o fewn 7 diwrnod.

↓ Dysgwr yn anfodlon gyda phenderfyniad yr apêl

Fe all y dysgwr  nawr gyfeirio ei apêl at y corff gwobrwyo addas.

↓

NVQ Arwain Gweithgareddau – **AGORED Cymru**
NVQ Datblygu Chwaraeon – **1st 4 SPORT**
Cymwysterau Cyflogadwyedd - **1st 4 SPORT**
Tystysgrif mewn cyflwyniad i weithio yn yr Awyr Agored – **1st 4SPORT**
Tystysgrif mewn Egwyddorion Hyfforddi – **NOCN**
Tystysgrif Arweinwyr Chwaraeon – **SPORT LEADERS**
Gwobr Arweinydd Tir Isel – **SPORT LEADERS**
NVQ Diploma Cefnogi Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol – **1st 4 SPORT**
Cymwysterau Sgiliau Hanfodol – **AGORED Cymru**
Gofal Plant Craidd – **CBAC**
Gofal Plant Ymarfer **– City & Guilds**

**FFURFLEN APÊL YN ERBYN PENDERFYNIAD ASESU**

Mae rhaid i ddysgwyr cwblhau'r ffurflen yma a'i ddychwelyd i'r Pennaeth Prentisiaethau Cenedlaethol o fewn 35 diwrnod i'r penderfyniad asesu gwreiddiol.

| | |
|---|---|
| Enw'r dysgwr: | |
| Rhaglen Dysgu: | |
| Cyfeiriad | |
| Cyfeiriad e-bost | |
| | |
| Dyddiad yr asesiad | |
| Dyddiad cyflwyno'r apêl | |
| Enw'r aseswr a wnaeth gwneud y penderfyniad sydd yn cael ei apelio | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Math o asesiad a manylion y penderfyniad asesu | | | |
| | | | |
| Rheswm dros apelio | | | |
| | | | |
| Llofnod y dysgwr | | Dyddiad | |

I'w gwblhau gan y Pennaeth Prentisiaethau Cenedlaethol

<table>
<tr><td colspan="2">Dyddiad yr ymchwiliad</td><td colspan="3"></td></tr>
<tr><td colspan="5">Manylion</td></tr>
<tr><td colspan="5"></td></tr>
<tr><td colspan="5">Penderfyniad:</td></tr>
<tr><td colspan="4">Cynnal y penderfyniad gwreiddiol</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="4">Cynnig modd i'r dysgwr ail eistedd neu ail gyflwyno</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="4">Gwrthdroi'r penderfyniad gwreiddiol</td><td></td></tr>
<tr><td>Gweithredoedd eraill:</td><td colspan="4"></td></tr>
<tr><td>Llofnod Pennaeth Prentisiaethau</td><td></td><td>Dyddiad</td><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td>Llofnod y Dysgwr[1]</td><td></td><td>Dyddiad</td><td colspan="2"></td></tr>
</table>

Mae llofnodi'r ffurflen yma ddim o reidrwydd yn dangos cytundeb gyda'r penderfyniad. Mae'r llofnod ond er mwyn dangos bod y dysgwr wedi gweld a deall y sylwadau.